**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

6 Ebrill 2023

Annwyl Jenny,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr, rwy'n amgáu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol (CPGC).

Fel yr eglurwyd i'r Pwyllgor, derbyniodd Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor, argymhelliad 28 a ofynnodd am gyhoeddi unrhyw waith a wnaed i werthuso gwaith yr CPGC a'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwnnw, cyn gynted ag y bo modd ac erbyn mis Gorffennaf fan bellaf.

Mae adroddiad cryno ynghlwm wrth y llythyr hwn sy'n rhoi trosolwg o drafodaethau a gynhaliwyd gan yr CPGC. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut roedd y cyngor a gafodd ei roi gan bartneriaid cymdeithasol wedi llywio'r ymateb i'r pandemig ar bob cam wrth i benderfyniadau gael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, roedd yn gyfle i gyfnewid syniadau ar y cyd ar ystod o bynciau, gan ganiatáu i bartneriaid cymdeithasol chwarae rhan weithredol wrth lunio'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith y meysydd a drafodwyd oedd y sectorau manwerthu a thwristiaeth, cymorth mwy cyffredinol i fusnesau, y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, diogelwch gweithwyr, ailagor ysgolion, a chyflwyno rhaglen frechu Covid-19 gan gynnwys y brechiadau atgyfnerthu.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o fudd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.